

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Ein Treftadaeth Iechyd



Ein Treftadaeth Iechyd
Our Health Heritage



Dyddiad cau: 06/09/2019

Rydym yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb gan bobl i gynnal prosiect yn ymwneud â threftadaeth iechyd **Ysbyty Brenhinol Caerdydd (YBC)**. Mae hwn yn gyfle byrdymor, hyblyg â thâl.

Mae YBC yn chwarae rôl bwysig yn stori Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwnaeth ymarfer cwmpasu celf, prosesau trosglwyddo gwasanaethau a digwyddiadau dathlu ar gyfer safleoedd y bwrdd iechyd ddatgelu casgliad mawr ac amrywiol o eitemau iechyd sy'n cael eu cadw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a dymuniad gan staff a phartneriaid i'w cydnabod, eu cadw a'u diogelu fel rhan o'n treftadaeth iechyd.

Nod ein prosiect Treftadaeth Iechyd cyffredinol yw:

- Diogelu eitemau rhag difrod, dirywiad a threfniadau storio amhriodol a'u cadw'n ddiogel i genedlaethau'r dyfodol.
- Cynyddu mynediad a diogelu eitemau, adeiladau a diwylliant ymhellach, gan felly gyfoethogi'r gymuned leol, gan gynnwys ysgolion, cleifion a staff, gyda hanes gofal iechyd yng Nghaerdydd a'r Fro.
- Arddangos a defnyddio'r casgliad yn safleoedd BIP a'i fenthycu i amgueddfeydd, sefydliadau partner a chwmnïau ffilm a theledu.

- Creu catalog digidol llawn a fydd i'w weld ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ac a fydd yn ffurfio rhan o arddangosfeydd rhyngweithiol a fydd yn llywio, addysgu ac ysbrydoli pobl.
- Gwella lles cyfranogwyr a chynnwys cyfranogwyr mewn gweithgarwch diwylliannol diddorol.

Ein nod pennaf yw diogelu, cynyddu mynediad i, ac arddangos ein hanes i genedlaethau'r dyfodol.

CRYNODEB Y SWYDD:

Cefnogi gwaith tîm Celfyddydau Iechyd a Lles BIP Caerdydd a'r Fro drwy gydlynw prosiect sy'n ymwneud â threftadaeth Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Amlinelliad o Gyfrifoldebau

Bydd Cydlynwdd Treftadaeth Iechyd YBC yn rheoli gweithrediad y prosiect hanesyddol/treftadaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o waith y rhaglen gelf a hyrwyddo nodau a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a'r Elusen Iechyd drwy ddatblygu perthnasau cadarnhaol â rhanddeiliaid allanol, fel artistiaid, amgueddfeydd, sefydliadau hanesyddol ac elusennau.
- Parhau i ddatblygu a chynnal cysylltiadau cyfathrebu mewnol gyda staff a chleifion yn YBC / y Bwrdd Iechyd.
- Diweddarau a datblygu systemau i sicrhau bod casgliadau hanesyddol y Bwrdd Iechyd / YBC yn rhedeg yn esmwyth.
- Sicrhau bod gwerthusiadau'n cael eu derbyn drwy weithgareddau hanesyddol a chan ymwelwyr a'u bod yn cael eu hasesu a'u trosi'n adroddiadau gwerthuso.
- Trefnu cyfarfodydd, digwyddiadau, arddangosfeydd, gweithdai a thiwtorialau.
- Paratoi a hongian arddangosfeydd, gan gynnwys dadbacio, hongian, arddangos a storio celf, offer a deunydd yn ddiogel.
- Cysylltu â'r tîm Celfyddydau i reoli cyfryngau a deunydd cysylltiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â gweithgarwch hanesyddol.
- Cyfrannu at adran hanesyddol y wefan Celfyddydau Iechyd a Lles a chynhyrchu cynnwys ar gyfer ein presenoldeb ar-lein a'n cyfryngau cymdeithasol.

- Datblygu catalog o lenyddiaeth ac arddangosfeydd.
- Mynychu a rheoli lansiad arddangosfeydd (gall hyn gynnwys oriau anghymdeithasol yn ôl yr angen).
- Cynrychioli BIP Caerdydd a'r Fro, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a'r rhaglen Gelf yn gadarnhaol a phroffesiynol bob amser.
- Gweithio'n hyblyg a blaenoriaethu gwaith i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu bwrw.
- Archwilio cyfleoedd am brosiectau hanesyddol pellach yn BIP Caerdydd a'r Fro.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Simone Joslyn ar

simone.joslyn@wales.nhs.uk neu 029 218 36049

